Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Porthmadog**

**Ysgol Eifion Wyn**
**Porthmadog**
**LL49 9NU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Porthmadog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Porthmadog |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 08 Mawrth 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, a dim ond llesiant y gwnaethom ei ystyried yn fanwl y tro hwn.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi mwynhad. Maent yn mynd at y staff yn rhwydd i wneud eu ceisiadau. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn, ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau ac yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gadarnhaol. Mae'r plant yn cydweithio'n briodol ac maent yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu ac yn ymgysylltu â nhw. Maent yn cael dewis rhesymol o gyfleoedd priodol dan do ac yn yr awyr agored a gallant hefyd ymlacio a chael cyfnodau tawel. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn briodol ac i ddatrys problemau, datblygu'n greadigol, arbrofi a defnyddio eu dychymyg.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn addas. Maent yn gyfeillgar ac yn ofalgar. Mae'r staff yn trefnu gweithgareddau diddorol ac yn annog y plant i chwarae yn yr awyr agored er mwyn datblygu eu sgiliau corfforol yn yr awyr iach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel. Maent yn trefnu ardaloedd dysgu deniadol dan do ac yn yr awyr agored. Mae teganau ac adnoddau o ansawdd da ar gael sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n cael gofal.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n addas. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y safonau.

## Llesiant

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus gan fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion, ar y cyfan, yn cael eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd priodol, y rhan fwyaf o'r amser, i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â'r hyn sy'n effeithio arnynt.

Mae'r plant yn mwynhau cyflwyno eu hunain a dangos yr hyn y maent yn hoffi chwarae ag ef. Er enghraifft, roedd plentyn yn chwerthin wrth ddweud a dangos i'w ffrindiau a'r staff fod ei nain/taid wedi tynnu llun doniol ar ei falŵn. Mae'r plant yn mynd at y staff yn rhwydd i wneud eu ceisiadau. Er enghraifft, rhoddodd un plentyn wybod i'r staff ei fod yn barod i gael newid ei gewyn ac ymatebodd yr aelod o'r staff ar unwaith. Fodd bynnag, roedd plentyn yn siomedig pan ddywedodd y staff y byddai'n rhaid aros cyn gallu paentio llun am nad oedd digon o ffedogau.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch gan staff cyfeillgar. Maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd ac yn dangos sut maent yn golchi a sychu eu dwylo cyn amseroedd bwyd ac yn paratoi i chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn dangos moesau da ac yn mwynhau'r agwedd gymdeithasol ar amser byrbryd. Mae'r plant yn cydweithio'n dda wrth dacluso eu teganau. Maent yn dysgu i rannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, gwnaethant rannu'r blancedi a'r llyfrau yn y gornel gyfforddus a chymryd tro i ddringo'r grisiau ar y llithren. Mae'r plant yn dysgu am garedigrwydd. Er enghraifft, cynigiodd plentyn i helpu ei ffrind i chwarae ar y si-so.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Maent yn mwynhau archwilio'r ardaloedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored gan wneud eu dewisiadau eu hunain o ran beth y maent am chwarae ag ef. Mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau adeiladu ac yn dangos mwynhad a'u sgiliau canolbwyntio wrth adeiladu trac trenau hir tra bo eraill yn gweithio fel tîm i drefnu cwrs rhwystrau gyda darnau mawr o bren. Mae'r plant yn mwynhau datblygu eu dychymyg yn y gornel gartref. Er enghraifft, creodd plentyn olygfa hyfryd drwy osod y bwrdd yn daclus, trefnu'r propiau bwyd a rhoi'r pryd ffug yn y ficrodon cyn ei weini i'w ffrindiau. Mae'r plant yn mwynhau ymarfer eu sgiliau cyfrif, er enghraifft, cyn troi eu bwced llawn tywod ben i waered, maent yn cyfrif ac yn ei tharo, cyn cael mwynhad mawr wrth ddatgelu eu castell tywod. Mae'r plant yn cael llawer o hwyl yn datblygu eu sgiliau corfforol wrth chwarae yn yr awyr iach. Maent yn rhedeg, yn neidio, yn gwibio o amgylch yr ardal chwarae ar eu beiciau ac yn dringo'r cyfarpar. Mae'r plant eraill yn mwynhau creu marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o sialciau y mae'n hawdd dal gafael ynddynt neu ddefnyddio'r cyfarpar dal a thaflu i ymarfer eu sgiliau cydsymud.

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibynnol mewn ffordd briodol. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn canolbwyntio am gyfnod hir wrth gludo dŵr o un cynhwysydd i un arall. Mae'r plant yn defnyddio'r cyfarpar crefft yn hyderus. Maent yn torri siapiau â siswrn yn ofalus er

mwyn gwneud pryf cop ac yn cymryd amser i blygu'r papur yn gywir er mwyn creu coesau hir y pryfyn. Mae'r plant yn gwneud rhai pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth addas gan y staff.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac maent yn gofalu amdanynt mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae gan y staff ddealltwriaeth addas o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn iach. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn briodol, gan annog y plant i fwyta ffrwythau, yfed llaeth neu ddŵr a datblygu eu sgiliau corfforol wrth chwarae yn yr awyr iach. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo sy'n eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn cymorth cyntaf a diogelu sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n cael gofal. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn gwbl hyderus o ran eu dealltwriaeth o weithdrefnau diogelu ac ynghylch rhoi'r polisi diogelu ar waith yn briodol. Nid ydynt yn goruchwylio'r plant yn wyliadwrus bob amser. Er enghraifft, mae'r staff yn cael eu hegwyl ginio yn yr ystafell chwarae tra bo'r plant yn chwarae'n annibynnol. Nid oedd y staff yn mynd i'r afael â rhai enghreifftiau o ryngweithio annerbyniol rhwng y plant mewn modd amserol. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Mae'r staff yn rhoi'r rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith yn addas. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau newid cewynnau yn cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol. Er enghraifft, nid oedd y staff yn defnyddio ffedog untro wrth newid cewyn plentyn er mwyn osgoi'r risg o groesheintio. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae’r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau ond nid yw pob un o'r rhai wedi cael eu cofnodi'n gywir ac nid yw pob un ohonynt wedi cael eu cydnabod gan rieni / gofalwyr er mwyn dangos eu bod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r staff yn cofnodi presenoldeb dyddiol y plant ond nid ydynt yn cofnodi eu horiau presenoldeb dyddiol eu hunain, gan gynnwys eu hegwylion, er mwyn cael archwiliad clir o bwy sy'n gofalu am y plant yn ystod y cyfnodau hynny. Mae'r staff yn cofnodi pryderon diogelu ond nid ydynt yn cofnodi pa gamau a gymerwyd ac a yw'r mater wedi'i ddatrys ai peidio. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r staff yn trefnu profiadau dysgu a chwarae addas i'r plant ac yn eu cefnogi mewn modd sensitif a chadarnhaol. Gwnaeth y staff drefnu gweithgaredd crefft hyfryd, gan ddangos i'r plant sut i ddefnyddio siswrn yn ddiogel i dorri papur. Gwnaethant ddangos i'r plant sut i greu pryfyn a rhoi cyfarwyddiadau clir iddynt. Ymatebodd y staff mewn modd amserol i'r plant pan gawsant eu gwahodd i chwarae gyda nhw. Gwnaethant ymgysylltu'n

frwdfrydig â'r plant yn ystod amser stori a gwnaethant gymryd rhan mewn trafodaethau bywiog am ymweld â'r traeth.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd croesawgar, diogel a glân lle gall y plant chwarae a dysgu yn annibynnol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau asesiadau risg er mwyn nodi'r peryglon posibl i'r plant yn briodol, a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut i ddelio ag argyfyngau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod cynllun yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw yn ddirwystr. Ceir ardal ddynodedig i'r plant storio eu heitemau personol ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn arddangos gwaith celf y plant yn ddeniadol ac mae hyn yn dangos i'r plant bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r teganau a'r adnoddau yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n cael gofal, ac mae dodrefn o faint priodol ar gael i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer storio'r cyfarpar a'r adnoddau yn yr ardal dan do yn addas a'u bod yn hygyrch i'r plant. Maent yn gwella ymwybyddiaeth y plant o'u treftadaeth Gymreig drwy amrywiaeth o arddangosfeydd ar y wal. Ers yr arolygiad diwethaf mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud gwelliannau i gyflwyno teganau ac adnoddau er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o'u cymdeithas ehangach. Mae'r ardaloedd dysgu wedi'u trefnu'n dda er mwyn datblygu gwybodaeth y plant, eu chwilfrydedd naturiol a'u diddordebau. Ceir adnoddau naturiol ac adnoddau wedi'u hailgylchu i ddatblygu sgiliau synhwyraidd, sgiliau iaith, sgiliau rhifedd a sgiliau hunanymwybyddiaeth y plant. Mae'r ardaloedd cyfforddus wedi eu cyflwyno mewn ffordd greadigol, gan wahodd y plant i orffwys a chymryd diddordeb mewn darllen llyfrau.

Mae'r ardal chwarae yn yr awyr agored yn annog y plant i fod yn heini yn yr awyr iach. Mae amrywiaeth dda o gyfarpar dringo, cerbydau pedal a chyfarpar taflu a dal ar gael er mwyn datblygu sgiliau corfforol y plant yn briodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau boddhaol ar waith i sicrhau bod pawb ar y cyfan yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Maent yn rheoli'r lleoliad yn addas, ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn bodloni'r rheoliadau a'r safonau.

Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni / gofalwyr am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Fodd bynnag, mae angen diwygio'r manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, ond nid yw pob un o'r rhain wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gwybod i AGC am unrhyw ddigwyddiadau o bwys. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi cyflwyno'r asesiad diweddaraf o'r gwasanaeth i AGC. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau adroddiad myfyriol sy'n adolygu ansawdd y gofal ac yn tynnu sylw at yr hyn sy'n gweithio'n dda ynghyd â'r hyn sydd angen ei wella. Maent wedi defnyddio'r sylwadau a gasglwyd gan y rhai sy'n defnyddio'r lleoliad ond nid ydynt wedi cynnwys y sylwadau gan asiantaethau allanol er mwyn gwerthuso'n llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y gwiriadau datgelu a gwahardd ar gyfer y staff yn gyfredol a bod yr hyfforddiant perthnasol diweddaraf wedi'i gwblhau. Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl a'u bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad. Fodd bynnag, dangosodd rhai o'r sylwadau a wnaed nad yw'r staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm bob amser. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi casglu'r wybodaeth ofynnol yn ffeiliau cyflogaeth y staff ac yng nghofnodion unigol y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal sesiynau goruchwylio anffurfiol. Nid ydynt yn cofnodi'r trafodaethau un-i-un hyn â'r staff er mwyn myfyrio ar arferion, anghenion hyfforddiant ac unrhyw bryderon diogelu. Maent yn bwriadu trafod y syniad o gynnal arfarniadau gyda'r staff.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod pob aelod o'r staff yn hyderus ynghylch Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'u bod yn gallu rhoi'r polisi diogelu ar waith yn ymarferol. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn cofnodi'r camau gweithredu a gymerir wrth nodi pryder diogelu. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn goruchwylio’r plant yn wyliadwrus bob amser. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn cofnodi eu horiau presenoldeb dyddiol, gan gynnwys eu hegwylion, er mwyn sicrhau bod archwiliad clir o bwy sy'n gofalu am y plant yn ystod y dydd. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn gywir a gwneud yn siŵr bod rhieni / gofalwyr yn cydnabod y rhain er mwyn dangos eu bod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn cofnodi'r camau gweithredu a gymerir wrth gofnodi pryderon diogelu. | Newydd |
| 25 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn dilyn y gweithdrefnau newid cewynnau cywir yn unol â Chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru (Meithrinfeydd, Gwarchod Plant a Chylchoedd Chwarae). | Newydd |
| 17 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei fod yn cwblhau'r asesiad o'r gwasanaeth o fewn 28 diwrnod i gael cais gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** |
|---|

| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
|---|---|
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Er mwyn osgoi siomi'r plant, dylid gwneud yn siŵr bod digon o gyfleoedd ac adnoddau ar gael iddynt fwynhau gweithgareddau paentio. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Dylid ffurfioli sesiynau goruchwylio un-i-un rheolaidd â'r staff er mwyn nodi trafodaethau ar ansawdd eu hymarfer a chodi unrhyw bryderon diogelu. |
| Safon 1 - Gwybodaeth | Dylid gwneud yn siŵr bod y manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gywir yn y datganiad o ddiben a sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/06/2024